



Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2020/21

Crynodeb Gweithredol

Tachwedd 2021

I gael y fersiwn lawn o'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol, ebostiwch quality@caerdydd.ac.uk.

Tîm Ansawdd a Safonau

Y Gofrestrfa

Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr

Prifysgol Caerdydd

CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi trosolwg cyfannol o'n system ansawdd academaidd. Mae'n gwneud hyn drwy adolygu'n feirniadol bob un o feysydd y system, gan gynnwys gweithgareddau sicrhau ansawdd, asesu a derbyn myfyrwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau sefydliadol o bwys yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 sy'n ymwneud â'r system.

Mae adolygu'r system ansawdd academaidd yn galluogi ein Senedd a'n Cyngor i wneud penderfyniad ynghylch y datganiadau o sicrwydd i'w cyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) bob blwyddyn. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o nodi risgiau i ddelio â nhw neu eu lliniaru. Mae canolbwyntio ar risgiau a phennu statws risg pob maes yn sicrhau ein bod yn parhau i wella a chryfhau'r system, gan gynnwys sicrhau ei bod yn dal i gyd-fynd â phwyntiau cyfeirio allanol.

Fel y gwnaeth yn 2019/20, mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau ar ein dull o ddelio â'r tarfu a achosir gan COVID-19 a'i liniaru. Mae'r sylwadau hyn yn dangos bod gennym system ansawdd academaidd gadarn o hyd, a all fod yn hyblyg ac ymateb pan fydd angen.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cyfleoedd i wella – camau i'w cymryd yn fwriadol i wella ansawdd cyfleoedd – sy'n cael eu blaenoriaethu ochr yn ochr â mentrau eraill er mwyn gwella profiad ein myfyrwyr.

Mae'r is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr yn llywio'r broses o flaenoriaethu mentrau er mwyn sicrhau profiad addysgol rhagorol o ansawdd gyson uchel a ysgogir gan greadigrwydd a chwilfrydedd, ynghyd ag addysgu a gwasanaethau gwyb i wella dysgu a chefnogi bywyd yn y brifysgol. O 2021/22 ymlaen, bydd adroddiad gwella'n cael ei gyflwyno i'r Senedd a'r Cyngor bob blwyddyn i ategu'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol. Bydd yr adroddiad hwn yn sôn am gynnydd a chanlyniadau mentrau i wella profiad y myfyrwyr.

1.2 Asesu a nodi risgiau

Mae risgiau holl feysydd ein system ansawdd academaidd yn cael eu hasesu. Mae lefel y risg yn cael ei nodi drwy werthuso gwybodaeth a data meintiol neu ansoddol i nodi unrhyw broblemau o bwys sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd y system neu brofiad ein myfyrwyr, gan gynnwys y tebygolrwydd y bydd y camau sy'n cael eu cymryd yn delio â'r problemau a nodwyd a'u datrys:

Gwyrdd	Ni nodwyd unrhyw broblemau o bwys; dim angen gweithredu
Oren	Nodwyd problemau o bwys; camau'n cael eu cymryd a fydd yn delio â nhw
Coch	Nodwyd problemau o bwys; cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i ddelio â nhw neu gamau'n cael eu cymryd sydd heb ddangos y bydd y problemau'n cael eu datrys

Mae statws risg pob maes ffocws yn yr adroddiad i'w weld yn nhabl 1:

Adran	Maes Ffocws	Coch	Oren	Gwyrdd
2	Pwyntiau Cyfeirio Allanol			Gwyrdd
4	Rheoliadau a Pholisïau			Gwyrdd
5	Derbyn Myfyrwyr			Gwyrdd
6	Safonau Academaidd			Gwyrdd
6.4	Bwlch Dyfarnu BAME		Oren	
7	Sicrhau Ansawdd			Gwyrdd
8	Profiad y Myfyrwyr	Coch		
9	Cytundeb Perthynas a Siarter y Myfyrwyr			Gwyrdd
10	Cwynion ac Apeliadau'r Myfyrwyr a Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol		Oren	

Tabl 1: Meysydd ffocws a nodi risgiau

Mae rhagor o wybodaeth am y casgliadau y daethpwyd iddynt ar gyfer pob maes ffocws ar gael yn yr adroddiad.

Yn 2021/22, gyda golwg ar yr adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i aeddfedrwydd ein dull a'n sail dystiolaeth ar gyfer sicrhau safonau ac ansawdd academaidd bob blwyddyn, dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Risgiau.

1.3 Rhoi sicrwydd i CCAUC

Drwy'r adroddiad hwn a dadansoddiadau dilynol o bob maes, gall ein Cyngor gyflwyno ei ddatganiadau blynyddol o sicrwydd yn hyderus i CCAUC, fel y nodir yn y ddogfen [Datganiadau Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyrrff Llywodraethu Sefydliadau a Reoleiddir](#) a'r [Fframwaith Asesu Ansawdd Addysg Uwch yng Nghymru](#) isod:

- Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi'i greu a'i roi ar waith fel bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.**

Mae dogfennau'r Adolygiad Gwella Ansawdd wedi'u cyflwyno i'r Cyngor. Gwnaeth y Cyngor hefyd gymeradwyo'r cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2020. Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn adolygu sut mae'r [cynllun gweithredu](#) yn cael ei roi ar waith, fel y nodir yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

- Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn sail i wella profiad academaidd a deilliannau myfyrwyr yn gadarn a phriodol.**

Mae gennym systemau sicrhau ansawdd aeddfed ac enw da am ansawdd profiad ein myfyrwyr. Rydym yn canolbwyntio ar gynnal strwythurau rheoli

ansawdd sydd nid yn unig yn sicrhau safonau academiaidd ond hefyd yn rhoi pwyslais ar fyfyrwyr drwy hunanwerthuso sy'n helpu'r myfyrwyr i wella a datblygu'n barhaus.

Gwnaeth canlyniad ein Hadolygiad Gwella Ansawdd gadarnhau ein bod yn dal i fodloni gofynion Rhan 1 o'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrhau ansawdd yn fewnol, gan gynnwys gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

3. Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.

Disgwylir i brifysgolion yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi Datganiad Canlyniadau Graddau, fel y nodir yn Natganiad o Fwriad Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd y DU i ddiogelu gwerth graddau'r DU. Mae ein [Datganiad Canlyniadau Graddau](#) yn amlinellu ein proffil dosbarthu graddau. Mae hefyd yn cadarnhau bod canlyniadau ein graddau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn, a hynny drwy ein system ansawdd academiaidd, a fydd yn sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod a'u cynnal yn briodol, gyda golwg ar ddisgwyliadau allanol.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer gosod a chynnal safonau academiaidd dyfarniadau, gan gynnwys:

- trefniadau ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu'r ddarpariaeth sy'n dwyn credydau ym Mhrifysgol Caerdydd
- camau gweithredu a themâu sefydliadol a nodwyd yn adroddiadau'r arholwyr allanol

Rydym hefyd wedi ymrwmo i [Siarter Gonestrwydd Academiaidd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch](#). Mae'r siarter hwn yn ceisio bod yn sail y gall prifysgolion adeiladu arni i ddatblygu eu polisiau a'u harferion eu hunain.

4. Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y deialog blynyddol rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau'r arolwg myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u creu a'u rhoi ar waith, mewn partneriaeth â'r corff a fyfyrwyr.

Bob blwyddyn, mae Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor, ac rydym yn ymateb iddo. Yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2021, cyflwynwyd 'Barn y Myfyrwyr' i'r Cyngor sy'n nodi pa bethau y gellid eu gwella neu eu cyflwyno ym marn Undeb y Myfyrwyr er budd profiad y myfyrwyr. Bydd y Cyngor yn cadarnhau beth yw ein hymateb yn ystod ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2021.

Rydym yn dal i weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd ar ymateb ysgrifenedig i CCAUC ynghylch canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, a oedd yn cynnwys:

- cynllun gweithredu sefydliadol ar gyfer 2021/22, sy'n canolbwyntio ar y cwestiynau hynny yn yr arolwg lle na wnaeth y canlyniadau gyrraedd y safon yn ystadegol
- cynlluniau gweithredu ar lefel pwnc, lle mae'r canlyniadau'n 70% neu'n is ar gyfer y ddwy flynedd ddiweddaraf neu fwy ac yn 50% neu'n is mewn unrhyw flwyddyn benodol

Mae'r cynllun gweithredu sefydliadol yn ymdrin â'r holl feysydd thematig na chyrhaeddodd y safon yn ystadegol. Mae hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod 2020/21.

5. Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o'r cytundeb perthynas rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr neu gorff cyfatebol, a chopi o'r siarter myfyrwyr, ac mae'r naill a'r llall wedi cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2020, cyflwynwyd i'r Cyngor y Cytundeb Perthynas rhwng Prifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys Siarter y Myfyrwyr. Y tro nesaf y bydd y Cytundeb Perthynas a Siarter y Myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor fydd yn ystod yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2021, sy'n rhoi sicrwydd eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

6. Mae gan y corff llywodraethu drefniadau effeithiol i oruchwylio canlyniadau gradd ac uniondeb academiaidd.

Cafodd ein Datganiad Canlyniadau Graddau ei gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo ym mis Tachwedd 2020. Mae'r adroddiad blynyddol ar ganlyniadau graddau ar gael yn Adran 6.3. Mae'r adolygiad o ganlyniadau graddau ac adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod safonau'r dyfarniadau'n briodol.

Mae'r Polisi Camymddygiad Academiaidd wedi'i fapio i ofynion Côt Ansawdd y DU a Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Rydym hefyd wedi ymrwmo i Siarter Gonestrwydd Academiaidd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (gweler Adran 2.4). Bydd y gwaith o fapio ein harferion yn erbyn y siarter yn cael ei wneud yn 2021/22.